

**Cofnodion Cyfarfod Fforwm Mynediad Lleol Gogledd Eryri
a gynhaliwyd ddydd Llun 19 Ebrill 2021 am 6.30p.m.
Cyfarfod Zoom Ar-lein**

Presennol - Aelodau:	Robin Parry Arthur Davies Mark Jones Richard Williams Hillary Davies	Edwin Noble John Gladstone Cyng Goronwy Edwards Calum Musket David Firth
-----------------------------	--	--

Swyddogion yn mynychu / Siaradwyr

Peter Rutherford (APCE) Oliver Wicks (Y Cerddwyr) Wyn Williams (CG)	Mary Williams (CE) Rhys Roberts (CG) Helen Pye (APCE)
---	---

1. Ymddiheuriadau:	Mr John Hardy Mrs Kate Worthington Mrs Molly Lovatt	Mr Dafydd Gwyndaf Cyng Jason Parry Tom Hutton
---------------------------	---	---

Croesawodd PR yr holl aelodau a swyddogion i'r cyfarfod.

2. Ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd

Nododd PR nad oedd wedi derbyn llawer o ymatebion i'r enwebiadau ar gyfer swydd y Cadeirydd ac argymhellodd, o ystyried bod hwn yn ofyniad statudol (bod y Cadeirydd yn arwain yr ail gyfarfod) yna y gallai fod yn ddoethach caniatáu i'r Cadeirydd blaenorol aros yn ei le am 12 mis, ac ar ôl hynny gallai aelodau benderfynu a oedd angen etholiad arall arnynt.

Cytunwyd bod E Noble yn parhau fel Cadeirydd am 12 mis.

Argymhellodd PR hefyd, er mwyn sicrhau cydbwysedd, y dylai'r swydd ar gyfer Is-gadeirydd fynd yn ddelfrydol i aelod o'r grwpiau defnyddwyr - byddai'n cylchredeg rhestr o'r aelodau hynny i'w galluogi i gael trafodaeth ymysg ei gilydd (neu drwy PR) i enwebu Is-gadeirydd.

Cytunwyd y byddai PR yn dosbarthu nodyn i'r aelodau

3. Cofnodion blaenorol

Cymeradwywyd

4. Materion yn Codi

i) Safle Bwlch Moch – Diweddariad PR

Soniodd PR, er bod barn gymysg gan yr aelodau yn y cyfarfod diwethaf, bod swyddogion wedi cael trafodaeth fewnol ers hynny ac yn seiliedig ar yr hyn sy'n brofiad sylweddol staff maes, roeddent wedi cytuno bod angen cwblhau'r wal

uchaf i wyro'r rhai oedd yn cymryd llwybr y Grib Coch mewn camgymeriad, ond na fyddai wal is yn cael ei hadeiladu. Byddai'r camfeydd trac PyG presennol yn aros yn eu lle.

Fel sgrambl Gradd 1, efallai y bydd angen arwyddion newydd hefyd sy'n dangos symbol 'eithafol' y PC ar gyfer esgyniad/disgyniad wrth mynedfa i ByM ei hun a ger y gamfa uchaf lle roedd yn fwy synhwyrol i bobl wneud penderfyniad i droi yn ôl os nad oeddent yn hyderus.

Dywedodd EN ei fod yn credu bod hon yn ffordd synhwyrol o symud ymlaen i geisio datrys y broblem benodol honno.

Dywedodd JG fod yr hyn a gynigir yn newid cynnil i wneud i bobl feddwl ddwywaith am eu dewis llwybr cyn gadael y pwynt hwnnw.

Ychwanegodd ei fod yn deilwng o archwilio graddio ar gyfer llwybrau cadair olwyn/Tramper.

Roedd PR o'r farn bod hwn yn syniad da ac y byddai'n ystyried hyn, ond y gallai fod werth adolygu'r hyn a oedd eisoes ar gael.

Dywedodd MJ fod Chwaraeon Anabledd Cymru yn cynnal gweithdy marchnata ar hyn o bryd ac y gallai fod yn ddefnyddiol edrych ar yr agwedd honno.

Ychwanegodd PR, er bod cyfres o bethau ar gael, y byddai cael rhywfaint o gyffredinedd yn ddefnyddiol ac y byddai'n edrych ar hyn.

ii) Symbolau PC ar gyfer cerdded a sgramblo

Dangosodd PR y symbolau/ eiconau graddio PC a ddefnyddir ar gyfer pob llwybr (sydd hefyd wedi'u cynnwys yn y cofnodion) a byddai'r rhai mwyaf eithafol yn cael eu defnyddio ar gyfer y Grib Coch gan nodi bod cerddwyr angen y sgiliau angenrheidiol ar gyfer y llwybr hwnnw. Gobeithio y byddai hyn yn gwneud i rai pobl feddwl eto. Mae geiriad penodol hefyd sy'n cyd-fynd â phob symbol. Ceir y wybodaeth ar wefan y PC.

iii) Gweithdai Datganiad Ardal

Gofynnodd PR a oedd unrhyw aelodau wedi mynychu unrhyw un o'r gweithdai. Nid oedd ef ei hun wedi mynychu'r cylch diweddaraf.

Ni nododd unrhyw aelodau eu bod wedi mynychu, ond pe bai cysylltiadau cyhoeddus yn clywed unrhyw beth o ran mynediad, yna byddai'n adrodd yn ôl i'r aelodau.

iv) Diweddariad Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Gwynedd (ROWIP)

Wedi'i ddwyn ymlaen o'r agenda ar y pwynt hwn.

Cyflwynodd WW ei hun fel Rheolwr Cefn Gwlad Cyngor Gwynedd a oedd yn gyfrifol am reoli'r Tîm Hawliau Tramwy ac, yn dilyn hynny, cynhyrchu adolygiad ROWIP.

Esboniodd fod hyn wedi mynd i'r Pwyllgor Craffu ddiwedd mis Chwefror a'i fod bellach ar ffurf drafft bras y gellid nawr ei gylchredeg i grwpiau fel y FfMLI a PCE. Byddai fersiwn derfynol yn mynd i'r cyhoedd yn nes ymlaen yn y flwyddyn. Roedd yn bwysig ystyried bod y ddogfen hon yn adolygiad o'r ddogfen wreiddiol.

Byddai unrhyw raglen waith ddilynol yn ymddangos fel atodiad i'r ddogfen hon.

Mae cyfarfod is-grŵp penodol o'r tri FfMLI lleol (Arfon Dwyfor, Gogledd Eryri a De Eryri) lle byddai hyn yn cael ei drafod yn fanylach. Ond gofynnodd pe bai gan aelodau unrhyw arsylwadau neu sylwadau yna byddai'n falch o'u hystyried.

Roedd y pwyslais yn y dogfennau o ran rheolaeth hawl dramwy gyhoeddus yn seiliedig ar dair thema gan gynnwys y broses gategoreiddio.

A - Cynnal a rheoli'r rhwydwaith Hawliau Tramwy

B - Y Map a'r Datganiad Diffiniol

C - Diwallu anghenion defnyddwyr

Fel mater o bolisi, roedd Gwynedd tua 15 mlynedd yn ôl wedi penderfynu mabwysiadu system gategoreiddio yn seiliedig ar lefel y defnydd, pwrpas a phwysigrwydd, a chynhaliwyd ymarfer ar y cyd â'r cynghorau cymuned i gategoreiddio llwybrau ar eu rhwydwaith priodol. Roedd hyn yn debyg i ddull awdurdodau lleol eraill.

Ers yr amser hwnnw, bu gostyngiadau sylweddol yng nghyllid llywodraeth leol a thua 5 mlynedd yn ôl, daeth yn ddoeth blaenoriaethu llwybrau categori 1 a 2 yn unig sy'n cyfrif am ryw 45% o'r rhwydwaith. Cydnabu, trwy ganolbwyntio ar lwybrau categori 1 a 2, y gallai'r gweddill o bosibl ddiodef.

Ychwanegodd fod y defnydd o hawl dramwy gyhoeddus o bosibl wedi newid ers yr ymarfer gwreiddiol ac efallai na fydd yr hyn a ystyriwyd yn bwysig bryd hynny yn berthnasol heddiw oherwydd efallai bod anghenion cymunedau lleol yn benodol wedi newid - megis defnyddio'r rhwydwaith lleol ar gyfer hamdden, iechyd, a llesiant - *wedi'i waethygu yn sgil dyfodiad Covid* a rhaid gweld unrhyw adolygiad yn y goleuni hwnnw.

Prif bwrpas gategoreiddio oedd mater o dargedu adnoddau cyfyngedig ac mae'n parhau i fod yn ffactor pwysig gan nad yw'r adnoddau craidd oedd ar gael bryd hynny ar gael heddiw. Cydnabu ei fod wedi cwestiynu'r system gategoreiddio yn y gorffennol, ond i'r awdurdod lleol, bu'n allweddol wrth bennu blaenoriaethau gwaith, dyrannu adnoddau ac mae'n ddefnyddiol at ddibenion statudol.

Gobeithio mai gategoreiddio fyddai un o'r materion sylfaenol a fyddai'n cael ei drafod gan yr is-grŵp FfMLI.

Diolchodd i'r aelodau am y cyfle i siarad â nhw, a byddai'n croesawu unrhyw awgrymiadau neu syniadau yr oeddent am eu cyflwyno.

Gofynnodd PR i WW a oedd Covid wedi dylanwadu ar sut roedd pobl yn defnyddio eu rhwydwaith lleol ac a fyddai hyn yn newid eu ffordd o feddwl.

Nododd WW y byddai'n gwneud gwahaniaeth bod patrymau defnydd wedi newid - yn enwedig o fewn ardaloedd lleol pobl. Y cwestiwn oedd a oedd hyn yn rhywbeth dros dro neu yn fater tymor hwy, a gallai hyn ddylanwadu ar ble roeddent yn dyrannu eu hadnoddau - mewn rhwydweithiau lleol neu lwybrau strategol hirach.

Dywedodd PR fod Covid yn sicr wedi ysgogi ailgysylltiad cymunedau lleol â'u Hawliau Tramwy a bod hyn hefyd yn fudd o ran iechyd a llesiant corfforol a meddyliol pobl.

Ychwanegodd fod yr is-grŵp yn cyfarfod ar 23ain Ebrill, ac y byddai'n cael ei gynnal gan y PC. Yr aelodau oedd David Firth, Edwin Noble a John Gladstone.

Diolchodd EN i WW am y wybodaeth bwysig hon. Byddai'n mynychu'r is-grŵp.

Ychwanegodd PR pe bai aelodau'n dymuno ychwanegu eu barn yna roedd croeso iddynt eu hanfon ato (byddai'n eu hanfon ymlaen), neu iddynt eu hanfon yn uniongyrchol at WW.

v) Strategaeth Hamdden Ddrafft APCE

Gofynnodd EN pryd y gallem weld copi o'r strategaeth a rhoi sylwadau arni.

Dangosodd PR gopi ar y sgrin am gyfnod byr, a nododd y gobeithiai y byddai ar gael ar gyfer y cyfarfod nesaf ar ôl i'r ddogfen gael ei chymeradwyo gan y Tîm Rheoli (h.y. i fynd allan wedyn i ymgynghori arni). Esboniodd ei fod wedi bod yn ymgynghori â rhai unigolion sy'n cynrychioli amryw weithgareddau awyr agored ond nad oedd y ddogfen eto yn y parth cyhoeddus, felly byddai aelodau'r FfMLI yn cael y cyfle cyntaf i weld hyn.

Dylanwadwyd yn fawr ar y ddogfen hon gan Gynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol a pholisïau cenedlaethol eraill.

Roedd yn ceisio dilyn tueddiadau cenedlaethol a newidiadau mewn gweithgareddau a dyma'r tro cyntaf hefyd iddynt ddefnyddio 'datganiadau gweithgaredd' ar gyfer pob un o'r gweithgareddau awyr agored penodol a oedd yn newydd. Roedd yn gobeithio y byddai hyn yn cael ei groesawu.

Byddai'n cylchredeg y strategaeth cyn gynted ag y caiff ei chymeradwyo gan y Tîm Rheoli ac i gynulleidfa ehangach o randdeiliaid.

5. Gohebiaeth

Dim

6. Cod Cefn Gwlad - papur briffio CNC – Peter Rutherford

Soniodd PR fod CNC yn dal i ymgynghori â Lloegr fel y nodwyd yn y nodyn briffio a oedd yn egluro beth oedd wedi digwydd hyd yma a system codau CNC ar gyfer amrywiol weithgareddau. Roedd yn ddefnyddiol iawn eu cael i gyd mewn un lle.

Byddai'r PC yn cario'r dolenni hyn.

Ychwanegodd y byddai Croeso Cymru eleni hefyd yn mynd ati i hyrwyddo'r Cod Cefn Gwlad trwy eu cynllun ADDO a fyddai'n ddefnyddiol. Byddai hyn hefyd yn galluogi negeseuon mwy cyson ar draws y sector. Roedd hyn yn bwysig hefyd o ystyried rhai o'r gweithgareddau negyddol a welsom o ganlyniad i Covid - yn enwedig gwersylla anghyfreithlon, parcio gwael a thafllu sbwriel.

Gofynnodd RP os mai CNC oedd yn gyrru hyn.

Dywedodd PR mai CNC oedd yn gyrru hyn, ond os oedd gan unrhyw aelodau unrhyw fater i'w godi, yna gallai gysylltu â nhw'n uniongyrchol neu drwy PR.

Dywedodd GR fod y cod wedi ennill mwy o bwysigrwydd o ystyried y cynnydd sylweddol yn nifer yr ymwelwyr yn dilyn cyfnod clo Covid a rhai patrymau ymddygiad. Felly, roedd yn bwysig bod ei neges ar gael yn hawdd a'i bod yn hawdd i'w dilyn er mwyn sicrhau bod pobl yn cymryd sylw o'r cyngor.

Gofynnodd ED beth oedd y rheolau o ran cŵn a phwy fyddai'n plismona hyn.

Cydnabu PR y byddai plismona hyn yn anodd yn enwedig yn ardaloedd mwy anghysbell y PC. Ond roedd yn hyderus mai hunan-blismona fyddai'n digwydd i raddau helaeth. Fodd bynnag, byddai PCE yn gwneud ei orau, ond mae angen ymgyrch cysylltiadau cyhoeddus genedlaethol dda.

Ychwanegodd HP y byddai'n cylchredeg nodyn ynglŷn â hyn. Soniodd hefyd fod y negeseuon cadarnhaol wedi'u targedu i raddau helaeth at yr ymwelwyr newydd ag Eryri nad ydynt efallai wedi arfer ymweld â chefn gwlad, ond cydnabu fod hon yn her. Byddai'r negeseuon hyn yn rhedeg trwy gydol y tymor i ddod.

Roedd PC y DU a'r AHNE'oedd hefyd yn gweithio ar negeseuon tebyg ac roedd cyllid sylweddol wedi'i ddyrannu i hyn.

Soniodd GE mai ei ddealltwriaeth ef oedd bod y Cwricwlwm Cenedlaethol (CC) yn newid i hyrwyddo gwell dealltwriaeth o amgylchedd lleol plant. Byddai'r Cod Cefn Gwlad yn fan cychwyn da, a hefyd i greu ymdeimlad o le a gwerthfawrogiad o'u hamgylchedd lleol.

Dywedodd HP y byddai'n hapus i gyfleu'r negeseuon hynny i LIC ar y cyfle nesaf.

Byddai PR yn gofyn pa newidiadau sydd ar y gweill ar gyfer y CC ac yn dod â nhw gerbron yr aelodau.

Diolchodd EN i PR am y diweddariad a'i bod yn bwysig bod y Cod Cefn Gwlad yn cael ei rannu gyda'r cyhoedd yn enwedig ar yr adeg hon.

7. Diweddariad ar Raglen Gwirfoddoli Cymdeithas Eryri – Mary Williams

Cyflwynodd MW ei hun fel Swyddog Cadwraeth gyda Chymdeithas Eryri.

Roedd nodau ac amcanion y Gymdeithas yn debyg i'r Parciau Cenedlaethol:

“Amddiffyn a gwella harddwch a rhinweddau arbennig Eryri a hyrwyddo eu mwynhad er budd pawb sy'n byw yn yr ardal, yn gweithio neu'n ymweld â'r ardal nawr ac yn y dyfodol”.

Er mwyn galluogi hyn, roedd llawer o'u gwaith yn cynnwys gweithio gyda gwirfoddolwyr ar brosiectau cadwraeth ymarferol a dyma fydd canolbwynt ei chyflwyniad heno.

Roedd peth o'r gwaith yn cynnwys gweithio gyda phartneriaid eraill fel Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol gyda CNC, Coed Cadw (yr Ymddiriedolaeth Coetir) a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol sy'n delio â rhywogaethau ymledol - ffromlys a rhododendron yr Himalaya ond hefyd waith cadwraeth arall - gan gynnwys diwrnodau hyfforddi a gweithgareddau ar gyfer plannu coed a gwaith cynnal a chadw llwybrau troed.

Dangosodd luniau sgrin amrywiol o'u Swyddogion a gweithgareddau gwirfoddol ac eglurodd eu bod bob amser yn barod i gynorthwyo sefydliadau eraill yn eu gwaith cadwraeth.

Roedd clirio sbwriel hefyd yn rhan bwysig o'u gwaith ac roeddent wedi gweithio'n agos gyda'r Gymdeithas Cadwraeth Forol a Chyngor Gwynedd yn trefnu sesiynau clirio sbwriel ar draethau mewn lleoedd fel Harlech.

Esboniodd fod y Gymdeithas yn ymwneud llawer iawn â'r Parc Cenedlaethol yng nghynllun Croeso Nôl ar ôl cyfnod clo Covid - lle roedd gwirfoddolwyr yn cynnal patrolau sbwriel ac yn cynorthwyo'r cyhoedd gyda gwybodaeth o amgylch yr Wyddfa.

Enw'r cynllun newydd sydd ar waith i ddilyn diwedd y cyfnod clo nesaf yw 'Caru Eryri'. Bydd hon yn fenter debyg a yrrir gan wirfoddolwyr ac sy'n debyg i Croeso Nôl, ac unwaith eto bydd ar y cyd â PCE. Yn sicr, roedd cyfnod Croeso Nôl yn her o ystyried ein bod wedi gweld cymaint o ymwelwyr ychwanegol a gwahanol i'r ardal.

Y gobaith oedd y gallai gwirfoddolwyr staffio lleoedd eraill yn y Parc y flwyddyn i ddod, gan gynnwys Cadair Idris ac ardal y Bala.

Eleni, gellid cynnig Unedau Hyfforddi Achrededig i wirfoddolwyr ar gyfer eu datblygiad personol.

Gofynnodd EN pam y gelwid y cynllun ar ôl Covid newydd yn 'Caru Eryri' yn hytrach na 'Gofalu am Eryri'.

Atebodd MW fod grŵp ar-lein arall gyda'r enw hwnnw, felly er mwyn osgoi dryswch, mabwysiadwyd enw newydd. Byddai hyn hefyd yn ymddangos ar eu logos hefyd. Roedd hi'n sicr y byddai'r aelodau'n clywed mwy yn ystod yr wythnosau nesaf.

Soniodd HP y bydd y negeseuon ar gyfer ymwelwyr i gynllunio - darganfod a gwarchod.

Diolchodd RP i MW am ei chyflwyniad. Esboniodd ei fod yn gynrychiolydd Ymddiriedolaeth Afonydd Gogledd Cymru a'u bod hefyd wedi ymgymryd â gwelliannau amgylcheddol mewn amgylcheddau afonol a gofynnodd a allent o

bosibl gysylltu â'r Gymdeithas ac archwilio'r potensial ar gyfer rhywfaint o weithio ar y cyd.

Nododd MW fod hyn yn bosibl, ac y gallai RP gysylltu â'r Gymdeithas i drafod hyn.

Gwirfoddolodd PR i anfon manylion y Cymdeithasau i gysylltu'r ddau sefydliad.

Roedd GE o'r farn bod mentrau Croeso Nól a Charu Eryri yn rhagorol a diolchodd i'r Gymdeithas am ei gwaith. Ychwanegodd fod Cynllun Llysgennad Twristiaeth ar gael ac roedd yn cynnwys tiwtorial ar-lein syml a oedd yn ychwanegu at yr hyn roedd y gwirfoddolwyr wedi'i gyflawni.

Dywedodd MW y byddent yn annog eu gwirfoddolwyr i gymryd rhan yn y cynllun hwn unwaith y byddai ar waith eleni. Roedd ganddyn nhw hefyd brosiect tebyg o'r enw 'Eryri fel Parc Cenedlaethol' i alluogi gwirfoddolwyr i gael mwy o wybodaeth a dealltwriaeth am y PC ac yn ei dro i'w galluogi i hysbysu'r cyhoedd yn well.

Gofynnodd MJ a oedd y wybodaeth Mentro'n Gall yn cael ei rhannu gyda'r gwirfoddolwyr, o ran diogelwch mynyddoedd ac wrth baratoi pobl ar gyfer diwrnodau allan ar y bryniau. Ac a oeddent yn cario'r negeseuon hyn ar eu gwybodaeth sgrin gyffwrdd.

Dywedodd MW eu bod wedi cynhyrchu rhai fideos hyfforddi ar gyfer gwirfoddolwyr a bod un elfen yn ymwneud â negeseuon Mentro'n Gall.

Dywedodd HP ei bod yn amlwg fod sgriniau cyffwrdd wedi bod yn broblemus ac na ellid eu defnyddio yn ystod Covid, ond unwaith y byddai rhywfaint o normalrwydd, yna byddai'r negeseuon hynny'n cael eu cario. Am y flwyddyn sydd ar ddod, roedd y negeseuon â thuedd gref o ran Mentro'n Gall.

Diolchodd EN i MW am ei hamser a'i gwybodaeth ddiddorol heno.

8. Diweddariad ar Ffordd Cambrian – Oliver Wicks

Diolchodd OW i'r aelodau am y cyfle i'w diweddarau ar y datblygiadau ar y llwybr.

Esboniodd fod rhan fawr o'i waith fel Swyddog Mannau Cerdded gyda Cherddwyr Cymru yn cynnwys gweithio gydag amrywiol grwpiau cymunedol a gwirfoddol ledled Cymru a gynorthwyodd RA gyda gwaith ar y rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus. Yr elfen arall i'w rôl oedd fel Swyddog Ffordd Cambrian.

Rhoddodd drosolwg a ddangosodd y llwybr cyfan yn rhedeg o gastell Caerdydd i gastell Conwy sy'n 298 milltir o hyd ac a oedd yn pasio drwy Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a Pharc Cenedlaethol Eryri. Pwysleisiodd nad oedd hwn yn llwybr i'r cerddwr achlysurol gan ei fod yn llwybr anodd, hir, a mynyddig yn aml, a fyddai ond yn apelio at gerddwyr pellter hir profiadol. Yn Eryri, roedd yn dod i mewn trwy Machlwyd ac yn cynnwys y rhan fwyaf o gopaon yr ucheldir yr holl ffordd i Ddyffryn Conwy.

Esboniodd bod y llwybr wedi ei greu yn wreiddiol gan Tony Drake yn yr 1960au, a phwynt pwysig oedd bod hyn yn cael ei wneud mewn oes cyn CRow, a lle'r oedd

llawer o'r llwybr nad oedd â hawl dramwy gyhoeddus gyda mynediad de facto¹ yn unig. Yn anffodus, bu farw Tony Drake yn 2012, ond roedd wedi gadael rhywfaint o arian ar gyfer y gwaith, ac roedd nifer o bobl yn parhau â'r gwaith.

Yn 2015, ffurfiwyd Ymddiriedolaeth Ffordd Cambrian, a dyma pryd y dechreuodd Cerddwyr Cymru ymwneud â'r gweithgor. Roedd y grŵp o'r farn bod angen adolygu'r llwybr a'r arweinlyfr gwreiddiol (a gyhoeddwyd gyntaf yn 1984) a dyna pam y dylai'r prosiect adolygu rhan o'r llwybr a chynhyrchu arweinlyfr newydd wedi'i orffen yn broffesiynol.

Roedd y broses yn cynnwys llawer iawn o ymgynghori a thrafod gyda nifer o awdurdodau lleol, Cynghorau Cymuned, y Parciau Cenedlaethol, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, CNC a pherchnogion tir.

Ar ôl ei gwblhau, lansiwyd yr arweinlyfr newydd yn 2019 a chynhaliodd Cerddwyr Cymru gyfres o deithiau cerdded tywysedig i ddathlu hyn gyda rhywfaint o sylw yn y cyfryngau cenedlaethol.

Roedd yr arwyddion bob amser yn brin, ac roedd hon yn agwedd a godwyd gan wahanol sefydliadau, a chytunwyd ar y lleoliadau hynny o ran marciau ffordd, a gwblhawyd ychydig cyn dyfodiad Covid gan gynnwys Eryri.

Y cam nesaf ac uchelgais yr Ymddiriedolaeth yw cael y llwybr ar fapiau'r OS. Ar hyn o bryd, roeddent yn trafod gyda'r awdurdodau lleol a'r Parciau Cenedlaethol i gael rhywfaint o gefnogaeth i hyn.

Roeddent yn ymwybodol o'r ffaith bod angen i unrhyw hyrwyddiad anfon y negeseuon cywir yn arbennig ynghylch ei anhawster, ac roedd hyn yn cael ei adlewyrchu yn eu holl ddeunydd hyrwyddo neu mewn gwybodaeth ar gyfer y cyfryngau.

Estynnodd PR ei longyfarchiadau i OW a Cherddwyr Cymru am ymgymryd â'r prosiect sylweddol hwn. Roedd PCE bellach yn cytuno â'r arwyddion ffordd - yn yr ystyr y dylid eu cadw'n gynnil a'u gosod mewn lleoliadau strategol yn unig, a hefyd tynnwyd sylw at ba mor anodd oedd y llwybr mewn unrhyw wybodaeth gyhoeddus.

Dywedodd JG, fel Cyfarwyddwr Anabledd Cymru, bod dyletswydd ar awdurdodau lleol i ystyried hygyrchedd felly a oedd hyn yn rhan o'u ffordd o feddwl?

Dywedodd OW ei fod yn deall eu cyfrifoldebau yn llawn a bu newidiadau mewn rhai ardaloedd ar hyd y llwybr lle newidiwyd camfeydd i giatiau pan oedd y tir yn addas. Fel mater o egwyddor, roedd hyn bob amser ym meddylfryd Cerddwyr Cymru yn gyffredinol - ac i agor cefn gwlad i gynulleidfa ehangach.

Ychwanegodd fod gan Gerddwyr Cymru ychydig o arian cyfyngedig i wneud rhai newidiadau ac efallai yr hoffent gynnig rhywfaint o gymorth bach i rai awdurdodau lleol i wneud newidiadau mwy cynhwysol.

Dywedodd GE ei bod yn bwysig gweithio gyda pherchnogion tir fel y gellir gwneud newidiadau i'r rhwydwaith a chaniatáu i fwy o bobl gael mynediad i gefn gwlad yn enwedig pe bai disgwyliadau'n cael eu codi. Fodd bynnag, roedd yn ymwybodol y

¹ Mae mynediad de facto yn disgrifio mynediad sydd eisoes yn bodoli er nad yw wedi'i gydnabod gan y gyfraith.

gallai rhywfaint o 'wybodaeth ar-lein' fod yn anghywir neu'n gamarweiniol ond roedd yn fater i berchnogion tir a'r cyhoedd fod â hyder yn y rhwydwaith PRow a'r hyn a oedd ar fap yr OS.

Dywedodd OW fod cynaliadwyedd y llwybrau yn ffactor pwysig yng ngwaith Ymddiriedolaeth Ffordd Cambrian a Cherddwyr Cymru. Roedd hyn yn cynnwys rheoli'r llwybr yn y tymor hwy gan gynnwys monitro, marcwyr ffordd ac arwyddion.

Roedd PR trwy'r Cadeirydd yn dymuno gwneud dau bwynt: i) wrth ailosod rowndeli cyfeirio, gallai fod yn ddefnyddiol cynnwys cyfeiriadau grid gan fod rhai o'r lleoliadau yn anghysbell ac roedd hyn wedi'i ddefnyddio'n llwyddiannus yn yr ucheldiroedd gan y Parc Cenedlaethol fel canllaw, ond yn bwysig hefyd fel mesur diogelwch. ii) er ei fod yn deall safbwynt JG ynghylch hygyrchedd y llai abl, roedd y Ddeddf Cydraddoldeb yn nodi 'lle roedd yn rhesymol ymarferol' a bod tir Ffordd Cambrian yn ffactor a oedd yn cyfyngu'n ddifrifol. Ond roedd yn hyderus y byddai'r Ymddiriedolaeth ar y cyd â Cherddwyr Cymru yn ystyried yr opsiynau lleiaf cyfyngol pan fyddai cyfleoedd yn codi.

Roedd DF (yn ôl ar-lein!) eisiau gwneud dau bwynt:

- i) Roedd yn gobeithio bod y pwyntiau cyfeirio yn fach iawn, ac o ystyried ei faint o anhawster, na ddylid ymgymryd â'r llwybr hwn yn ddi-feddwl.
- ii) O bosibl, gallai cynnwys y llwybr ar fap OS – y gellir dadlau sydd eisoes yn llawn gwybodaeth – ychwanegu at ddryswch.

Dywedodd OW y bu cryn drafod ynghylch marcwyr ffordd ac am gymeriad y llwybr ac roeddent yn deall y ddeinameg hon yn llawn ac nid eu bwriad oedd awgrymu bod y llwybr hwn yn 'hawdd'. Yn ddiodyn, ac o ystyried y tir, nid oedd yn ymarferol gosod marcwyr ffordd fel y byddai rhywun yn ei ddisgwyl ar lwybrau eraill. Roedd taro'r cydbwysedd rhwng rhy ychydig neu ormod, tra'r un pryd yn cynnig sicrwydd, yn anodd, ond mae'r hyn a ddywedodd DF yn hollol ddilys ac nid oeddent eisiau rhoi ymdeimlad ffug o ddiogelwch i gerddwyr. Y negeseuon i bobl yw y dylent wneud eu gwaith cartref ar hyn. Roedd yn gwerthfawrogi y byddai'r map OS o bosibl yn codi ei broffil, ond byddai'n ehangu'r wybodaeth ac yn apelio at gerddwyr mwy craff, a gobeithio rhoi apêl genedlaethol iddo.

Diolchodd EN i OW am y cyflwyniad a'r drafodaeth ddiddorol am Ffordd Cambrian.

9. Cyflwyniad Byr i Gynllun Gwella Hawliau Tramwy Gwynedd

Trafodwyd eisoes dan eitem 4.iv

10. Diweddariad Llwybr Arfordirol Cymru Gyfan - Rhys Gwyn Roberts

Yn anffodus, ni allai RGR fynychu heno. Byddai PR yn holi a allai fynychu'r cyfarfod nesaf.

11. Eitemau agenda a argymhellir ar gyfer y cyfarfod nesaf

- i) Diweddariad Partneriaeth Tirwedd y Carneddau CDyL
- ii) Drafft strategaeth Hamdden APCE
- iii) Gofynnodd KW am sesiwn briffio ar fynediad i feiciau modur ar y Moelwyn.

Byddai PR yn trafod hyn gyda'r orsaf bŵer ac yn gwneud ymholiadau pellach, ond mae'n anodd eu rhwystro gan fod cymaint o bwyntiau mynediad posibl. Ond byddent yn ailedrych ar hyn.

12. Unrhyw fater arall

i) Gofynnodd PR i DF beth oedd y diweddaraf o ran gweithrediadau Rheilffordd Ucheldir Cymru ar ôl Covid.

Dywedodd DF mai'r bwriad oedd agor gwasanaeth cyfyngedig o'r 1af o Fai. Byddent yn rhedeg trê'n o Gaernarfon i Feddgelert ac yn ddiweddarach yn y flwyddyn byddent yn rhedeg trê'n o'r cyfeiriad arall o Borthmadog i Feddgelert. Ond ni fyddai trenau'n rhedeg yr holl ffordd drwodd o Borthmadog i Gaernarfon. Mae gan Reilffordd Ucheldir Cymru sgriniau Covid rhwng y seddi.

Dim ond cyn belled â Than Y Bwlch y byddai trê'n Ffestiniog yn rhedeg (gyda cherbydau ar wahân), ac ar hyn o bryd nid oes unrhyw gynlluniau i fynd ymlaen i Blaenau heblaw am ychydig achlysuron arbennig o bosibl.

ii) Gofynnodd HD a oedd newidiadau i wasanaeth bysiau Sherpa nawr bod Pen Y Pass yn system archebu yn unig.

Atebodd HP eu bod wedi cytuno â Chonwy a Gwynedd i ddarparu gwasanaeth gwell i Pen Y Pass ac annog pobl i fynd ati i ddefnyddio'r cyfleuster parcio a theithio ac i leihau'r arfer gan bobl o yrru i fyny ac i lawr yn chwilio am le parcio. Ar hyn o bryd, derbyniodd yn llwyr nad oeddem yn y modd tymor llawn, ond roedd y sefyllfa'n cael ei monitro.

Gofynnodd HD hefyd a oedd unrhyw fath o wasanaeth o Fethesda.

Dywedodd HP y byddai bysiau ychwanegol yn y tymor gwyliau ar benwythnosau bob awr ond ar hyn o bryd nid oes gwasanaethau ychwanegol. Gobeithio y byddai'r gwasanaeth hwn yn annog mwy o ddefnydd ac o bosibl ehangu hyn ymhellach os yw'n hyfyw.

Soniodd DF ei bod yn ymddangos bod yr ymdrechion parcio cyfyngedig (ac arwyddion llusgo cerbydau i ffwrdd) ar wahanol bwyntiau wedi gweithio'r penwythnos diwethaf. Roedd hyn yn wir hefyd yn Ogwen - er nad oedd yn hoffi'r effaith 'Snowdconia' - fe weithiodd.

Nodyn gan PR: Priodolir y term newydd hwn nawr i DF.

Gofynnodd GJ a allai aelodau dderbyn diweddariad parcio a thrafnidiaeth yn y cyfarfod nesaf.

Dywedodd HP y byddai'n gofyn i Catrin Williams neu Angela Jones wneud hyn.

iii) Soniodd JG am fater yr Is-gadeirydd.

Dywedodd PR y byddai'n cylchredeg nodyn i'r aelodau o fewn y grwpiau defnyddwyr a gofyn iddynt a oeddent yn barod i enwebu rhywun o blith aelodau eu FfMLI.

13. Dyddiad y cyfarfod nesaf – 7fed Mehefin 2021

Drwy Zoom mae'n debyg, ond yn dibynnu ar reoliadau Covid.

Diolchodd PR i'r aelodau am eu presenoldeb a'u cyfraniadau, ac roedd yn gwerthfawrogi pa mor anodd oedd hyn i bawb ar Zoom.

Diolchodd EN i'r holl aelodau a swyddogion am eu cyfraniadau heno.